

Cyngor Cymuned Llansawel Community Council

Cyfarfod Misol / Monthly Meeting

Cynhaliwyd y cyfarfod trwy gotomeeting.com am 19:30 ar y 14eg o Ionawr 2021

*The meeting was conducted through gotomeeting.com at
19:30 on the 14th of January 2021*

Yn bresennol / Present:

Cynghorwyr / Councillors: Kevin Davies (Cadeirydd / Chair), Rhys George (Is-gadeirydd / Vice chair)
Pat Racher & Rhys Green

Clerc / Clerk: Angharad Medi Lewis

1.	<u>Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absence</u> Cyng. / Cllrs, Lynne Jones, Sion Williams, Meurig Griffiths & Elsbeth Jenkins. Cyng. Sir / County Cllr: Eirwyn Williams.
2.	<u>Datganiadau o ddiddordeb / Declarations of interest</u> Dim /None.
3.	<u>Cofnodion y cyfarfod blaenorol ar y 19eg o Dachwedd 2020</u> <u>Minutes from the previous meeting held on the 19th of November 2020</u> Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir gan y Cyng. Pat Racher ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Rhys Green. <i>The minutes were accepted as a true record and proposed by Cllr Pat Racher and seconded by Cllr Rhys Green.</i>
4.	<u>Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes</u> i. Pont Tancoed, Heol Esgairdawe – Mae'r mater hwn mewn llaw. Nid oedd y Cyng. Eirwyn Williams yn bresennol i rhoi diweddariad ar y sefyllfa. Tancoed bridge, Esgairdawe Road – <i>This issue is in hand. Cllr Eirwyn Williams was not present to provide an update on the situation.</i> ii. Gwefan – Gofynnwyd unwaith eto am luniau a chynnwys i rhoi ar y gwefan. Gofynnwyd i bawb anfon llun ohonynt at y Cyng. Pat Racher erbyn y cyfarfod nesaf. Website - <i>Photographs and content were again requested to place on the website. Everyone was asked to send a photo of themselves to Cllr Pat Racher by the next meeting.</i> iii. Ardal Ailgylchu – Adroddodd y Cyng. Pat Racher fod yr ardal yn parhau i gadw'n daclus. Recycling area – <i>Cllr Pat Racher reported that the area remains tidy.</i> iv. Pibell wedi'i blocio, ger Pont Tancoed – Adroddodd y Cadeirydd fod y pibell wedi'i hatgyweirio. Blocked pipe, near Tancoed bridge - <i>The Chair reported that the pipe has now been repaired.</i>
5.	<u>Dyfodol Adeilad Ysgol Llansawel / The Future of Llansawel School Building</u> Does dim newyddion swyddogol wedi dod gan Ymddiriedolaeth Crochan Cwm Cothi, ond roedd y Cynghorwyr yn hyderus bod pethau'n dechrau symud ymlaen gan nad yw'r Cyngor Sir wedi bod mewn cysylltiad eto ynglŷn â'r brydles.

	<i>No official news has come from Crochan Cwm Cothi Trust, but Councillors were confident that things were starting to move forward as the County Council has not been in touch again regarding the lease.</i>
6.	<u>Gohebiaeth / Correspondence</u> i. Cyfrifiad 2021 – Mae Nia Taylor, Rheolwr Ymgysylltiad Cyfrifiad Sir Gâr a Sir Benfro wedi bod mewn cysylltiad â'r Clerc. Esboniodd y Clerc fod Nia yn helpu sefydliadau, elusennau a chymunedau i godi ymwybyddiaeth o'r cyfrifiad ac o'i bwysigrwydd. Dyma fydd y tro cyntaf i'r cyfrifiad gael ei redeg yn bennaf ar-lein. Fodd bynnag, bydd holiaduron papur ar gael i'r rhai sydd eu hangen. Cytunodd y Cyng. Pat Racher i bostio'r datganiad swyddogol i'r wasg ar dudalen Facebook y Pentref i hysbysu'r trigolion. Bydd y Clerc yn cysylltu â Nia am daflenni a phosteri ar gyfer y gymuned. <i>Census 2021 – Nia Taylor, the Census Engagement Manager for Carmarthenshire and Pembrokeshire has been in contact with the Clerk. The Clerk explained that Nia is helping organisations, charities, and communities to raise awareness of the census and of its importance. This will be the first time the census will be run primarily online. However, paper questionnaires will be available for those who need them. Cllr Pat Racher agreed to post the official press release on the Village Facebook Page to inform the residents. The Clerk will contact Nia for leaflets and posters for the community.</i> ii. Manylion am y taliad gan Gyngor Sir Gâr - £1,833.33 (Praesept) <i>Remittance advice from Carmarthenshire County Council - £1,833.33 (Precept)</i> iii. Apêl Frys Elusen Ambiwylans Awyr Cymru - Cytunwyd i roi £200 yn syth tuag at y gronfa gan fod eu hincwm codi arian wedi gostwng 60% yn ystod y pandemig ac maent yn darparu gwasanaeth hanfodol drwy achub bywydau. <i>Wales Air Ambulance Emergency Appeal</i> – <i>It was agreed to donate £200 immediately towards the fund since their fundraising income has dropped 60% during the pandemic and they provide a vital service by saving lives.</i> iv. Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023 – Cais am gyfraniad ariannol - I'w drafod a'i ystyried yn y cyfarfod nesaf. <i>Urdd Eisteddfod Carmarthenshire 2023</i> – <i>Request for financial contribution - To be discussed and considered at the next meeting.</i> v. Praesept - Cytunwyd y bydd y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cael ei drafod a'i gytuno yn y cyfarfod nesaf. <i>Precept</i> – <i>It was agreed that the precept for the next financial year will be discussed and agreed in the next meeting.</i>
7.	<u>Ceisiadau cynllunio / Planning applications</u> Dim / None.

8.	<u>Materion ariannol / Financial matters</u> Balans yn y cyfrif banc - £4,419.98 ar 20/11/2020. <i>Bank Account balance - £4,419.98 as of 20/11/2020.</i>
i.	<u>Rhoddion a thaliadau / Donations & Payments</u> • 000775 - Angharad Lewis - £160.60 – Clerks Wages for December 2020. • 000776 - HM Revenue & Customs - £40.20 – Clerks Tax & NI for December 2020. • 000777 - Ambiwylans Awyr Cymru - £200 Donation • 000778 – Wales Audit Office - £338.75 • 000779 - Angharad Lewis - £160.60 – Clerks Wages for January 2020. • 000780 – HM Revenue & Customs - £40.20 – Clerks Tax & NI for January 2020.
ii.	<u>Cyfrifon blyneddol / Annual Accounts</u> Derbyniwyd y dystysgrif ac adroddiad archwilio gan Grant Thornton a dosbarthwyd copïau i'r Cynghorwyr. Trafodwyd y sylwadau a amlinellwyd yn yr adroddiad gyda'r angen i wella'r canlynol dros y flwyddyn nesaf: - Llofnodi a dyddio datganiadau cyfrifyddu. - Monitro cyllideb chwarterol. - Cofrestr Asedau Sefydlog / deall dibrisiant / cael prisiad cywir o'r adeilad / Cofrestrfa Tir / cael cyngor gan Un Llais Cymru ynghylch y cyfrifiad ar gyfer dibrisiant. - Mae angen llythyr ymgysylltu'r Archwilydd Mewnol bob blwyddyn gan yr Archwilydd Mewnol. <i>The certificate and audit report has arrived from Grant Thornton and a copy were distributed to councillors. The comments outlined in the report were discussed with the need to improve the following over the next year:</i> - <i>Signing and dating of accounting statements.</i> - <i>Quarterly budget monitoring.</i> - <i>Fixed Asset register / understand depreciation / obtain correct valuation of the old hearse building / Land Registry / obtain advice from One Voice Wales regarding the calculation for depreciation.</i> - <i>Internal Auditor engagement letter is required each year from the Internal Auditor.</i>
9.	<u>Coronafeirws / Coronavirus (Covid-19)</u> Cynigiodd y Clerc chwilio am bosteri i'w harddangos yn y pentref i godi ymwybyddiaeth o'r sgamiau diweddaraf e.e. Amazon, Brechlyn, gan gynnwys gwybodaeth am sut i amddiffyn eu hunain rhag twyll. <i>The Clerk offered to look for posters to display in the village to raise awareness of the latest scams e.g. Amazon, Vaccine, including information on how to protect themselves from fraud.</i>
10.	<u>Unrhyw fusnes arall / Any other business</u> i. Olwyn Dŵr wedi'i wneud â Llaw - Tynnwyd ein sylw at gysyniad olwyn ddŵr diddorol gan Mr A. Allen. Cytunwyd y dylai'r Cyngor ymchwilio i'r posibiliadau ar gyfer y pentref. Cytunodd y Clerc a'r Cyng. Pat Racher i wneud ymholiadau cychwynnol gyda sefydliadau fel Ynni Sir Gâr i weld a allai prosiect tebyg fod o fudd i'r pentref. Mae erthygl newyddion ynglŷn â'r cysyniad ar waith mewn pentref yn Lloegr ar gael ar gwefan y BBC: www.bbc.co.uk/news/uk-england-derbyshire-55289198

	Handmade Water Wheel - An interesting hydropower water wheel concept was brought to the attention of the Council by Mr A. Allen. It was agreed that the Council should research the possibilities for the village. The Clerk and Cllr Pat Racher agreed to make initial enquiries with organisations such as Carmarthenshire Energy to see if a similar project could benefit the village. A news article regarding the concept in operation in Bradwell, Derbyshire is available on: www.bbc.co.uk/news/uk-england-derbyshire-55289198 ii. The Circuit – Esboniodd y Clerc ei bod hi wedi cofrestru diffibriliwr y pentref ar <i>The Circuit</i>, Rhwydwaith Diffibriliwr Cenedlaethol. Un o ofynion y rhwydwaith yw bod yn rhaid gwirio diffibrilwyr yn rheolaidd e.e. Batris, padiau, clytiau sychu ac ati a rhaid cofnodi eu statws ar eu gwefan. Bydd y clerch yn gwirio'r diffibriliwr unwaith y mis. <i>The Clerk explained that she has registered the village defibrillator on The Circuit, The National Defibrillator Network. One of the requirements of the network is that defibrillators must be checked regularly e.g., Batteries, pads, drying cloths etc and their statuses must be recorded on their website. The clerk will check the defibrillator once a month.</i> iii. Achub Bywyd Cymru - Mae Un Llais Cymru ac Achub Bywyd Cymru yn cydweithio i annog cymunedau i ddeall pwysigrwydd CPR a defnyddio'r diffibriliwr. Cytunodd y Cynghorwyr i gyd i rannu eu fideo hyfforddi defnyddiol ar wefan y Cyngor. Save a Life Cymru – One Voice Wales and Save a Life Cymru are working together to encourage communities to understand the importance of CPR and using the defibrillator. The Councillors all agreed to share their useful training video on the Council's website. iv. Baw Cŵn – Codwyd pryderon ynghylch faint o gŵn sy'n baeddu yn y pentref, yn enwedig o amgylch y parc, y neuadd, y meithrin ac ar y palmant o gornel Swan i'r hen ysgol. Bydd y Clerc yn rhoi gwybod i'r Cyngor Sir am y mater ar unwaith. Dog Fouling – Concerns were raised regarding the amount of dog fouling in the village, especially around the park, hall, meithrin and on the pavement from Swan corner to the old school. The Clerk will report the matter to the County Council immediately.
11.	<u>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf / Date and time of next meeting</u> 18fed o Chwefror 2021 am 19:30. 18th of January 2021 at 19:30.
Heb unrhyw fusnes arall i'w drafod, caeodd y Cadeirydd y cyfarfod am 20:30. With no other business to discuss, the Chair closed the meeting at 20:30.	

Arwyddwyd / Signed **Dyddiad / Date**